**Atodiad A**

Mae'r canlynol yn nodi'r gyfres lawn o argymhellion gan IWPRB fel y'u cyhoeddwyd yn ei Adroddiad Cyntaf ar 8 Gorffennaf 2019, ynghyd ag ymateb y Gweinidog Addysg.

Mae Adroddiad Cyntaf IWPRB, a gyhoeddir heddiw, yn cwmpasu'r materion a drosglwyddwyd i IWPRB ym mis Chwefror 2019. Gofynnwyd i IWPRB wneud argymhellion ar y canlynol: "pa addasiadau y dylid eu gwneud i raddfeydd cyflog a lwfansau athrawon dosbarth, athrawon sydd heb gymhwyso ac arweinwyr ysgolion, er mwyn sicrhau bod y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo i annog recriwtio a chadw staff".

Wrth wneud ei argymhellion, gofynnwyd i IWPRB hefyd ystyried nifer o faterion, gan gynnwys y cyd-destun ariannol ehangach a chyd-destun y sector cyhoeddus ac amodau'r farchnad lafur. Nid yw Adroddiad IWPRB yn rhoi cyngor clir i'r Gweinidogion ar y materion hyn, felly mae'n ymddangos nad yw agwedd allweddol fforddiadwyedd wedi'i hystyried.

Mae IWPRB wedi argymell:

***A1*** *y dylid cynyddu isafswm statudol y PYC 5% a chynyddu uchafswm statudol y PYC 2.4%.*

***A2*** *y dylid cynyddu'r isafswm statudol a'r uchafswm statudol ar gyfer pob ystod cyflog arall (YCU, YCGA ac athrawon heb gymhwyso), a phob lwfans, 2.4%.*

***A3*** *y dylid dileu'r pwynt disgresiynol presennol 6a, gan symud y rheini sydd ar 6a i uchafswm statudol newydd y PYC.*

***A4*** *y dylid cynyddu pwyntiau graddfa disgresiynol M2-M5 ar y PYC i ddileu effaith andwyol y 1% o wahaniaeth sy'n berthynol i bwyntiau M1 ac M6 a gyflwynwyd drwy weithredu dyfarniad cyflog 2017; a'u cynyddu 2.4% ar ben hyn.*

***A5*** *y dylid cynyddu'r pwyntiau graddfa disgresiynol ar bob ystod cyflog arall (YCU, YCGA ac athrawon heb gymhwyso) 2.4%.*

***A6*** *y dylai'r holl awdurdodau lleol a'r holl ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru weithredu'r graddfeydd cyflog diwygiedig sy'n ymgorffori argymhellion A1-A5 (fel y nodir yn Atodiad B).*

***A7*** *y dylai'r graddfeydd cyflog yn Atodiad B ddod yn statudol a chael eu cyhoeddi yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol i Gymru. Yn ddelfrydol, dylai'r argymhelliad hwn gael ei weithredu ar gyfer 2019, ond os na ellir gwneud hyn, dylai fod ymrwymiad i wneud hynny o 2020 ymlaen.*

***A8*** *adolygiad sylfaenol o gyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr yng Nghymru i ategu'r agenda diwygio addysg.*

- Mewn egwyddor, rwy'n cefnogi argymhelliad IWPRB i gynyddu'r holl ystodau cyflog a lwfansau 2.4%, ond mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun ymrwymiad Llywodraeth Cymru i 'beidio ag achosi niwed' i'r proffesiwn yma yng Nghymru. Felly, rwyf o'r farn y dylid cyflwyno'r un cynnydd â'r un a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg sef 2.75%.

- Rwyf hefyd yn cefnogi argymhelliad IWPRB i gynyddu isafswm statudol y PYC 5% ac rwy'n bwriadu derbyn yr argymhelliad hwn.

- Ni ellir rhoi Argymhelliad **A7** ar waith yn ymarferol fel yr argymhellwyd. Nid yw'n ymarferol cyflwyno graddfeydd statudol ar gyfer 2019 ond caiff hyn ei ystyried yng nghylchoedd gwaith y dyfodol.

- Mae argymhellion **A3** i **A6** yn ymwneud â materion sydd i'w hystyried gan gyflogwyr ac felly ni all Gweinidogion Cymru eu derbyn. Fodd bynnag, rwy'n argymell y dylai cyflogwyr eu hystyried yn ofalus.

- Rwy'n cynnig derbyn Argymhelliad **A8** am fod hwn yn rhan o'r broses newydd o ran cyflogau rydym wedi'i rhoi ar waith yng Nghymru:

    - y bydd cylchoedd gwaith IWPRB yn y dyfodol yn ystyried y gofyniad am adolygiad sylfaenol o gyflog ac amodau gwasanaeth athrawon ac arweinwyr i ategu'r agenda diwygio addysg.

Rwy'n ddiolchgar am yr ystyriaeth fanwl y mae IWPRB wedi'i rhoi i'r mater pwysig hwn.

Byddaf yn gwahodd rhanddeiliaid allweddol yn awr i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar adroddiad IWPRB a'm hymateb i argymhellion allweddol IWPRB i Weinidogion Cymru.